OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1687

# Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

## RHAN 4

### Darpariaeth arbed

**Cymwysterau sydd wedi eu hachredu at ddibenion Rheoliadau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol 2015**

**13.** Er gwaethaf diddymu adran 30 o Ddeddf 1997 gan y Ddeddf, mae cymhwyster sydd wedi ei achredu gan Weinidogion Cymru yn unol â'r adran honno i barhau i gael ei drin fel cymhwyster sydd wedi ei achredu at ddibenion y diffiniad o "further education course" yn rheoliad 3 o Reoliadau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol 2015(**1**).

(**1**) O.S. 2015/621. Mae diwygiadau i reoliad 3 nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.